Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

## Deintyddfa Townhill

30 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-4734-3258-1
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 7

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 11

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 14

6. Y Camau Nesaf ........ 16

Atodiad A ........ 17

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Ddeintyddfa Townhill yn 16 Heol Graiglwyd, Townhill, Abertawe, SA2 0UX yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 30 Ionawr 2015.

Yn ystod yr arolygiad, roeddem yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*:*Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

[1] *Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Townhill yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Townhill, Abertawe. Mae’r practis yn rhan o amrywiaeth o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.  Mae’r ddeintyddfa’n cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys pedwar deintydd, pum nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Darperir gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Deintyddfa Townhill yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well:Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd cleifion a ddarparodd sylwadau yn holiadur AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch archwilio pelydrau-X, gwirio cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng, y trefniadau ar gyfer glanhau a dadheintio offer ac agweddau ar gadw cofnodion deintyddol.

Y prif ddeintydd oedd perchennog a rheolwr y practis. Roedd gan y practis nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu'n dda o fewn y tîm a gwelsom staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm.

Dylai perchennog y practis ddiweddaru'r weithdrefn pryderon (cwynion) er mwyn iddi adlewyrchu trefniadau *Gweithio i Wella.* Rhaid i'r deintyddion sy'n darparu gwasanaethau gofal deintyddol preifat sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n cydymffurfio â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Roedd y practis deintyddol  wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu fewn a'r tu allan yn ôl pob golwg.  Roedd yr ardaloedd a welsom yn lân ac yn daclus ac roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion aros i gael eu gweld gan eu deintydd.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd cleifion a ddarparodd sylwadau yn holiadur AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis.**

Gwnaethom wahodd cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Dychwelwyd cyfanswm o saith holiadur. Dywedodd yr holl gleifion a oedd wedi gwneud sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan y practis, eu bod yn cael croeso gan staff y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd y sylwadau yn cynnwys:

> *'Deintyddfa hyfryd.'*
>
> *'Mae'r staff deintyddol yn groesawgar ac yn gwneud i chi ymlacio bob amser.'*
>
> *'...mwy na bodlon.[ar y gwasanaeth a dderbyniwyd]'*

Esboniodd perchennog y practis nad oedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer asesu barn cleifion. Fodd bynnag, cadarnhaodd y perchennog y byddai'n siarad yn uniongyrchol â chleifion pe baent yn lleisio unrhyw bryderon am eu profiad gyda'r nod o ddatrys y pryderon yn brydlon ac er boddhad y cleifion. Darparodd enghraifft o adborth gan glaf oedd wedi arwain at newidiadau i wneud mynediad at adeilad y practis yn haws.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gwelsom fod cleifion yn gallu trefnu apwyntiad ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gall pobl fod yn hyderus, pe baent yn teimlo poen ddeintyddol, bod system ar waith i sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn wedi'i gynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis, ac wedi'i arddangos yn ffenest y practis.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Dywedodd staff fod proses ar waith i roi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol ar fyr rybudd.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch archwilio pelydrau-x, gwirio cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng, y trefniadau ar gyfer glanhau a dadheintio offer ac agweddau ar gadw cofnodion deintyddol.**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau gorfodol ar gael ac yn gyfredol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a gwirio a hyfforddiant staff. Roedd archwiliadau o ansawdd delweddau pelydrau-X wedi'u cwblhau fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd; fodd bynnag gwelsom fod rhai canlyniadau archwiliad ar goll. Rydym wedi argymell y dylai perchennog y practis roi system addas ar waith i wirio bod yr holl archwiliadau'n cael eu cwblhau.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i wirio bod archwiliadau pelydr-X yn cael eu cwblhau.***

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai un o’r cleifion yn cael argyfwng (cwympiad) yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at offer achub bywyd a chyffuriau i'w galluogi i weithredu ar unwaith pe bai un o’r cleifion yn cwympo. Fodd bynnag, gwelsom fod cyffur a ddefnyddir i drin argyfwng diabetig wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am hyn yn syth er mwyn i gyffur arall addas gael ei ddarparu yn ei le. Rydym hefyd wedi argymell y dylai perchennog y practis adolygu'r system sydd ar waith ar gyfer gwirio dyddiad defnyddio cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys, er mwyn gallu canfod y dyddiad defnyddio a chael cyffuriau newydd yn eu lle cyn y dyddiad hwnnw.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis wneud trefniadau addas i adolygu'r system o wirio'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn y practis. Dylid gwneud newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau bod cyffuriau sy'n agosáu at eu dyddiad defnyddio'n cael eu canfod a bod cyffuriau newydd yn cael eu darparu yn eu lle cyn y dyddiad hwnnw.***

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i fagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r dull cywir o waredu arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu. Gwelsom fod gweithdrefnau ysgrifenedig ac offer ar waith i ymdrin yn ddiogel ag achosion o ollwng mercwri. Roedd defnyddiau a allai fod yn beryglus fel silindrau nwy a chemegau wedi cael eu storio'n ddiogel ac roedd gan y practis wahanydd amalgam[2]er mwyn gallu cael gwared ar amalgam yn ddiogel.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05).[3]

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer a ddefnyddir yn y practis. Er bod gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân, fel sy'n cael ei argymell gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, nid oedd hon yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl offer, ac roedd rhywfaint o offer yn cael ei sterileiddio yn un o'r deintyddfeydd. Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i lanhau a sterileiddio'r holl offer (priodol) yn yr ystafell ddadheintio ddynodedig er mwyn lleihau ymhellach y perygl o groes heintio.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis ystyried gwneud trefniadau i lanhau a sterileiddio'r holl offer sydd angen ei lanhau a’i sterileiddio yn yr ystafell ddadheintio ddynodedig.***

Gwelsom fod yr offerynnau yn cael eu bagio'n briodol, ac yn cael eu stampio â dyddiad defnyddio, cyn iddynt gael eu storio.

Roedd llyfrau cofnodion wedi'u cynnal ar gyfer gwirio'r offer, ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod staff yn gwisgo menig trwchus i lanhau offer er mwyn lleihau'r perygl o gael anaf wrth lanhau offer

---

[2]Dyfais sy'n tynnu gronynnau o amalgam mercwri (sydd mewn rhai llenwadau deintyddol) o ddŵr gwastraff cyn iddo fynd i'r system garthffosiaeth.

[3] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

miniog. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau ar hap wedi cael eu cynnal yn unol â WHTM 01-05.

Gwelsom fowldiau deintyddol yn cael eu storio'n rhydd yn un o'r deintyddfeydd. Os nad oes angen eu defnyddio eto dyllid cael gwared arnynt, gan ddefnyddio dulliau priodol, neu dylid eu storio'n briodol mewn man y gellir mynd atynt yn hawdd os oes angen eu defnyddio eto.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas naill ai i gael gwared ar y mowldiau deintyddol yn ddiogel neu i'w storio gan ddibynnu a oes angen eu defnyddio eto ai peidio.***

Roedd tair deintyddfa, un ar y llawr daear a dwy ar lawr cyntaf yr adeilad. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd Offer Diogelu Personol fel menig untro ac offer diogelu llygaid ar gael i staff eu defnyddio i helpu i atal croes heintio.

Roedd cynwysyddion hylif golchi dwylo y gellir eu hail lenwi'n cael eu defnyddio. Gall y rhain fod yn ffynhonnell haint posib a dylid defnyddio peiriannau hylif golchi dwylo gyda chetris untro, wedi eu gosod ar y wal, yn eu lle fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i gael gwared ar gynwysyddion hylif golchi dwylo y gellir eu hail ddefnyddio a rhoi rhai gyda chetris yn eu lle yn unol â WHTM 01-05.***

Nid oedd cilfwâu rhwng y wal a'r llawr yn y ddwy ddeintyddfa ar y llawr cyntaf i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y corneli a'r cilfannau, gan achosi perygl posibl o haint. Rydym wedi argymell y dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i fynd i'r afael â hyn.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni mewn corneli a chilfannau rhwng y waliau a'r lloriau yn y deintyddfeydd ar y llawr cyntaf.***

Gwelsom fod rhai defnyddiau deintyddol wedi mynd heibio i'w dyddiad defnyddio a gwnaethom hysbysu staff er mwyn iddynt sicrhau nad oeddent yn cael eu defnyddio.  Gwnaethom argymell fod rhestr o ddyddiadau defnyddio cyffuriau'n cael ei chadw ym mhob deintyddfa yn y practis a bod hon yn cael ei gwirio'n rheolaidd. Dylai hyn sicrhau bod defnyddiau deintyddol sy'n agosáu at

eu dyddiad defnyddio yn cael eu canfod cyn mynd heibio'r dyddiad hwnnw a bod cyffuriau newydd yn cael eu darparu yn eu lle.

Gwnaethom edrych ar sampl o 12 cofnod deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion ar gyfer pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis.  Dim ond cofnodion papur oedd yn cael eu defnyddio yn y practis. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion a welsom wedi cael eu cynnal yn dda ac yn cynnwys y rheswm bod cleifion yn mynychu, y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd a'r cyngor a roddwyd gan y deintydd.

Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod rhai meysydd yr oedd angen eu gwella. Gwelsom nad oedd y cofnodion bob amser yn cynnwys nodiadau ar y math o archwiliad o feinwe meddal a berfformiwyd ac nad oedd sgoriau archwiliad periodontol sylfaenol [4] (BPE) wedi cael eu cofnodi bob tro. Gwelsom hefyd nad oedd cadarnhad o gydsyniad parhaus cleifion i gael eu trin wedi cael ei gofnodi ac nad oedd effeithiolrwydd meddyginiaeth a ragnodwyd wedi cael ei gofnodi ychwaith.

Byddai'r agweddau hyn ar gadw cofnodion yn dangos bod cleifion wedi cael eu hasesu a bod eu triniaeth wedi cael ei chynllunio mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles cleifion. Yn ogystal, nid oedd yr holl nodiadau wedi cael eu llofnodi i ddangos pwy oedd wedi ysgrifennu'r cofnod. Gan hynny, rydym wedi gwneud argymhelliad y dylai perchennog y practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn, gan ystyried safonau proffesiynol ar gyfr cadw cofnodion.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

[4] Offeryn sgrinio yw BPE sy'n cael ei ddefnyddio gan ddeintyddion i ganfod clefyd y deintgig.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Y prif ddeintydd oedd perchennog a rheolwr y practis. Roedd gan y practis nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion.Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu'n dda o fewn y tîm a gwelsom staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm.**

**Dylai perchennog y practis ddiweddaru'r weithdrefn pryderon (cwynion) er mwyn iddi adlewyrchu trefniadau '*Gweithio i Wella'*. Rhaid i'r deintyddion sy'n darparu gwasanaethau gofal deintyddol preifat sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n cydymffurfio â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.**

Y prif ddeintydd oedd perchennog a rheolwr y practis. Ar sail ein cyfweliadau â staff a'n harsylwadau, daethom i'r casgliad bod staff yn gweithio'n effeithlon gyda'i gilydd fel tîm.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Er i ni weld bod cyfarfodydd practis wedi cael eu cynnal, nid oeddent wedi cael eu cynnal yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod maint bach y tîm yn hwyluso cyfathrebu rheolaidd heb yr angen i gynnal cyfarfodydd tîm practis ffurfiol. Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu o fewn y tîm yn dda.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd y sampl o bolisïau y gwnaethom eu hystyried yn cynnwys y dyddiad y cawsant eu hadolygu diwethaf.

Gwelsom gadarnhad bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol[5]. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi mynychu hyfforddiant yn y cofnodion staff a welsom. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau perthnasol ac a oedd wedi diweddaru eu hyfforddiant.

---

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol - ://www.gdc-uk.org

Roedd dau o'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Yn unol â'r rheoliadau[6] perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd y ddau wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Cadarnhaodd perchennog y practis fod cofnodion gan bob aelod o staff a oedd yn cadarnhau eu bod wedi cael brechiadau Hepatitis B a brechiadau imiwneiddio.

Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. Felly, gellid rhoi sicrwydd i staff a chleifion fod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd, ac yn cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion). Fodd bynnag, mae angen diweddaru hon. Roedd yn cyfeirio'n anghywir at gleifion y GIG yn gallu gofyn am adolygiad gan yr Ysgrifenyddiaeth Adolygu Annibynnol. Mae hyn yn hen ac nid yw'n rhan o'r trefniadau *Gweithio i Wella* presennol ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru. Yn ogystal, nid oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel sy'n ofynnol dan y trefniadau uchod. Er bod manylion cyswllt y bwrdd iechyd cymuned lleol a'r bwrdd iechyd wedi eu cynnwys, roedd y rhain hefyd yn hen.

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat o ran cwynion am ofal deintyddol preifat, mae angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y weithdrefn gwyno.

***Argymhelliad***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i ddiweddaru gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis er mwyn iddi adlewyrchu'r trefniadau cywir a nodir yn 'Gweithio i Wella'. Yn ogystal mae angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.***

Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryderon (cwynion) wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, dywedodd dwy ran o dair o'r cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron nad oeddent yn ymwybodol o'r broses

---

[6] Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009.

y dylid ei dilyn. Efallai yr hoffai'r practis ymchwilio i sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd y practis deintyddol wedi ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg – y tu fewn a'r tu allan. Roedd yr ardaloedd a welsom yn lân ac yn daclus ac roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion aros i gael eu gweld gan eu deintydd.**

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau o adeilad ym maestref Townhill yn sir Abertawe.

Er nad oedd llefydd parcio dynodedig ar gael at ddefnydd cleifion, roedd llefydd parcio ar gael ar hyd y ffordd yn union y tu allan i'r practis. Roedd gan y practis arwydd mawr, clir oedd yn ei gwneud yn hawdd ei weld o'r ffordd. Roedd enwau a chymwysterau'r staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi eu harddangos yn glir, ynghyd â rhif cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau. Roedd hyn yn golygu bod cleifion sy'n mynychu'r practis pan oedd ar gau yn gallu gweld pwy i gysylltu â nhw am gymorth.

Roedd mynediad i’r practis yn addas ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd, gan nad oedd grisiau i'r practis, nac yn y mannau ar y llawr daear.

Roedd gan y practis doiledau gwahanol ar gyfer staff a chleifion. Roedd y ddau doiled yn lân ac ynddynt gyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes heintio.

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros ar y llawr daear. Gwnaeth ein harsylwadau nodi bod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried nifer y deintyddfeydd a nifer y cleifion oedd yn mynychu'r practis ar y diwrnod. Yn ystod taith o amgylch y practis gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus gyda goleuo, gwresogi ac awyru priodol.

Roedd amrywiaeth eang o ddefnyddiau hyrwyddo iechyd y geg yn cael eu harddangos ar bosteri a thaflenni. Roedd taflenni ar gael i gleifion fynd â nhw a'u darllen. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion sy'n dod i'r practis fynediad hawdd at amrywiaeth o wybodaeth am sut i ofalu am eu hylendid y geg eu hunain. Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau roedd y practis yn eu darparu wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa a'r ystafell aros. Roedd taflen y practis ar gael hefyd oedd yn cynnwys gwybodaeth am y tîm deintyddol, oriau agor a sut i drefnu apwyntiad. Roedd gwybodaeth bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth yn cael ei harddangos ynghyd â gwybodaeth ar gymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau hefyd ar gael ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion oedd yn ymweld â'r practis fynediad at wybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol. Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad heb awdurdod i ardaloedd nad oeddent ar gyfer cleifion. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ar gyfer cleifion a staff, ac roedd labeli cynnal a chadw yn dangos bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio o fewn y 12 mis diwethaf.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwelwyd bod angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran *Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Townhill yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Townhill

## Dyddiad yr Arolygiad: 30 Ionawr 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | - | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 7 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i wirio bod archwiliadau pelydr-X yn cael eu cwblhau. | Dylid sicrhau bod pob deintydd yn ymwybodol o'r angen i gwblhau archwiliad. | David Jones | 1 mis |
| 7 | Dylai'r practis wneud trefniadau addas i adolygu'r system o wirio'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn y practis. Dylid gwneud newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau bod cyffuriau sy'n agosau at eu | Wedi'i wneud eisoes – <br>Nid oes angen yr eitem oedd wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio bellach ac felly dim ond cael gwared arno oedd angen ei wneud. Nid oedd | David Jones | Wedi'i wneud |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | dyddiad defnyddio'n cael eu canfod a bod cyffuriau newydd yn cael eu darparu eu lle cyn y dyddiad hwnnw. | angen eitem yn ei le. | | |
| 8 | Dylai perchennog y practis ystyried gwneud trefniadau priodol i lanhau a sterileiddio'r holl offer yn yr ystafell ddadheintio ddynodedig. | Fel yr eglurwyd, mae'r mater hwn yn cael ei ystyried eisoes. | David Jones | 6 mis |
| 9 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas naill ai i gael gwared ar y mowldiau deintyddol yn ddiogel neu eu storio gan ddibynnu a oes angen eu defnyddio eto ai peidio. | Eisoes wedi eu storio - mowldiau yn y ddeintyddfa'n cael eu defnyddio ar gyfer cleifion presennol. | David Jones | - |
| 9 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i gael gwared ar gynwysyddion hylif golchi dwylo y gellir eu hail ddefnyddio a rhoi rhai gyda chetris yn eu lle yn unol â WHTM 01-05. | Ymchwilio opsiynau. | David Jones | 3 mis |
| 9 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni mewn corneli a chilfannau rhwng y waliau a'r lloriau yn y deintyddfeydd ar y llawr cyntaf. | Trafod gyda chontractwr pan fydd cypyrddau newydd wedi cael eu gosod. | David Jones | 3 mis |
| 10 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion | Trafod cyfrifoldebau gyda'r deintyddion mewn perthynas â chadw cofnodion. | David Jones | Yn syth |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | deintyddol yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 12 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i ddiweddaru gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis er mwyn iddi adlewyrchu'r trefniadau cywir a nodir yn 'Gweithio i Wella'. Yn ogystal mae angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | Defnyddio 'Gweithio i Wella' yn hytrach na gweithdrefn gwyno sy'n ganolog i'r practis. | David Jones | Yn syth |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | - | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** **David Jones..........................................................................**

**Teitl:** **Deiliad y Contract...................................................................**

**Llofnod:** **[cynllun wedi'i lofnodi wedi ei ddarparu].................................**

**Dyddiad:** **10-3-2015...............................................................................**